


Canllaw i bobl  
ifanc ar

**CYMORTH  
ADDYSG...**



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

Bydd y canllaw hwn yn rhoi **cyngor** a **gwybodaeth** ynghylch pa opsiynau cymorth / cyllid addysg sydd ar gael i chi.



**NEWPORT**  
CITY COUNCIL  
CYNGOR DINAS  
**CASNEWYDD**

## **CANLLAW I BOBL IFANC AR GYMORTH ADDYSG A CHYLLID...**

Bydd y canllaw hwn yn rhoi CYNGOR a CHYMORTH ar sut i gael mynediad at addysg bellach ac uwch gan gynnwys unrhyw gymorth ariannol sydd ar gael i chi.



# MANTEISION A HAWLIAU ADDYSG...

Wyddech chi gwybod os ydych chi'n 16 - 18 oed ac am fynd i'r chweched dosbarth neu'r coleg bod cymorth ar gael i chi.

Beth am ddechrau gyda grantiau. Efallai y gallwch gael arian i'ch helpu i barhau â'ch addysg.

## Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Mae hwn ar gyfer pobl ifanc 16 - 18 oed sy'n byw yng Nghymru sydd am barhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol. Mae'n lwfans wythnosol o £30.

I gael yr arian hwn rhaid i chi fod yn 16-18 oed ac yn byw mewn tŷ ag incwm isel. Rhaid i chi barhau i fynychu'r coleg i barhau i dderbyn yr arian.

## Grant dysgu Llywodraeth Cymru

Os ydych yn 19 oed neu'n hŷn gallwch gael rhywfaint o gymorth tuag at gost astudio. Gallai hyn fod hyd at £1,500 ar gyfer cwrs llawn-amser neu hyd at £750 ar gyfer cwrs rhan-amser (gan astudio mwy nag 8 awr yr wythnos).

Cofiwch fod faint a gewch yn dibynnu ar eich incwm.

I gael gwybod mwy am y ddau grant hyn ewch i

[www.studentfinancewales.co.uk/fe](http://www.studentfinancewales.co.uk/fe)

Gellir lawrlwytho ceisiadau o'r wefan hon hefyd.

## Princes Trust

Gall pobl ifanc 16-30 oed wneud cais am help tuag at gost ffioedd ac offer cwrs.

I wneud cais am hyn rhaid i chi fod yn astudio llai na 14 awr yr wythnos neu ddim mewn addysg orfodol neu fod yn ddi-waith neu'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos.

I ddysgu mwy ewch:

[www.princes-trust.org.uk//help-for-young-people/get-funding-train-learn](http://www.princes-trust.org.uk//help-for-young-people/get-funding-train-learn)



## **Cymorth i fyfyrwyr Coleg Gwent**

Os ydych yn mynychu Coleg Gwent, mae cymorth ar gael i chi. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol a chyngor ac arweiniad personol.

### **Cymorth ariannol - Cronfa Hapddigwyddiadau Ariannol**

Mae gan Coleg Gwent gronfa ar gael i fyfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol sy'n cynnwys:

- **cymorth tuag at gostau offer**
- **cymorth tuag at gost teithio**
- **cymorth gyda gofal plant**  
(gall hyn gynnwys prydau am ddim i'r rhai o dan 19 oed sy'n gymwys)

Dim ond hyn a hyn o arian sydd yn y gronfa. Os oes angen y cymorth hwn arnoch, siaradwch â gwasanaethau cwsmeriaid ar **01495 333777**.

Am fwy o wybodaeth ewch i:

[www.coleggwent.ac.uk/life-at-coleg-gwent/financial-support](http://www.coleggwent.ac.uk/life-at-coleg-gwent/financial-support)

### **Tocynnau bws**

Gallech fod â hawl i deithio ar fysus am bris gostyngol i'r coleg ac oddi yno.

- **Os ydych yn 16-18 oed ac yn byw yng Nghasnewydd, Torfaen, Caerffili neu Flaenau Gwent gallwch wneud cais i'ch cyngor lleol.**
- **Os ydych yn 16-18 oed ac yn byw yn Sir Fynwy neu dros 19 oed, byddwch yn gwneud cais yn uniongyrchol i'r coleg pan fyddwch yn cofrestru.**

### **Fy mhàs teithio**

Cynllun teithio gostyngol yw hwn ar gyfer pobl ifanc 16-21 oed sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Dim ond ar ôl i chi dderbyn eich 'mytravelpass' y bydd eich tocyn bws Coleg Gwent yn ddilys.

Gallwch wneud cais drwy'r post, dros y ffôn neu'n bersonol. Am fwy o wybodaeth ewch i [www.mytravelpass.gov.wales](http://www.mytravelpass.gov.wales)

## Cymorth gyda'ch lles

Bydd Coleg Gwent hefyd yn eich cefnogi gyda'ch lles a beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn mynychu.

*Cyn i chi gyrraedd y coleg:*

- **cyngor ac arweiniad ar arian y gallwch ei hawlio i gefnogi eich astudiaethau**
- **ymweliadau anffurfiol â champws**
- **sesiynau blasu a theithiau o amgylch y campws**
- **os yw'n briodol byddant yn mynychu eich cyfarfodydd cymorth yn yr ysgol**

*Pan fyddwch yn y coleg:*

- **cymorth gyda'ch cofrestrriad**
- **tiwtor personol, rhywun y gallwch ymddiried ynddo a siarad ag ef**
- **Gall Ysbrydoli i Gyflawni helpu gyda'ch astudiaethau yn ogystal ag unrhyw faterion personol, cymdeithasol ac emosiynol**
- **gwasanaeth cwnsela**
- **gweithiwr ieuencid**
- **gall hyfforddwy'r personol helpu gyda'ch astudiaethau**
- **gwasanaeth caplaniaeth a chynhwysiant**
- **cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol**
- **llyfrgelloedd sydd â llyfrau, cylchgronau, eLyfrau a DVDs, a gallwch ddefnyddio cyfrifiaduron personol neu gysylltu eich dyfais eich hun â'n Wi-Fi am ddim.**

Am fwy o wybodaeth am gymorth i ddysgwyr:

[www.coleggwent.ac.uk/life-at-coleg-gwent](http://www.coleggwent.ac.uk/life-at-coleg-gwent)

## PRIFYSGOL DE CYMRU...

Gall Prifysgol De Cymru eich cefnogi os ydych am fynd i'r brifysgol. Mae ganddynt berson enwebedig a fydd yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad i chi.



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

Gelwir y person hwn yn gydlynedd pobl sy'n gadael gofal ac maent yn cydlynu'r cymorth sydd ar gael yn y brifysgol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau anfonwch e-bost at [careleavers@southwales.ac.uk](mailto:careleavers@southwales.ac.uk)

### **Cymorth cyn mynediad**

Os ydych wedi dweud eich bod yn gadael gofal yn eich cais neu os ydych wedi cysylltu â'r person enwebedig yn uniongyrchol gall y brifysgol eich cefnogi gyda'r canlynol:

- **eich cais ar gyfer cyllid myfyrwyr**
- **darparu gwybodaeth am lety**
- **unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch dechrau yn y brifysgol**

### **Cyngor ac arweiniad ar arian**

Gall deall pa gymorth ariannol sydd ar gael i chi fod yn anodd. Gall tîm cyngor ariannol myfyrwyr y brifysgol eich cefnogi gyda'r canlynol:

- **sicrhau eich bod yn cael y cymorth ariannol sydd ar gael i chi gan Gyllid Myfyrwyr**
- **Rheoli arian a chyllidebu**
- **Cael mynediad i'r Bwrsari Pobl sy'n Gadael Gofal o'r brifysgol (hyd at £1,000) – caiff hyn ei gadarnhau'n flynyddol ac mae telerau ac amodau'n berthnasol.**



## Cyngor ar lety

Mae'r brifysgol yn darparu mynediad i lety 365 diwrnod yn ei Neuaddau Campws Trefforest (rhaid i'r myfyriwr dalu a bodloni'r telerau).

Gall hyn helpu i leihau straen wrth ddod o hyd i rywle i fyw yn ystod yr haf. Gallant hefyd eich cynghori ar lety preifat a gynigir ar gampws a lleoliadau eraill.

## Iechyd a Lles

Mae gan y brifysgol y gwasanaethau canlynol i gefnogi eich iechyd a'ch lles wrth astudio.

*Mae'r elusen yn cynnig:*

- **Cyngor a chymorth iechyd am ddim i bob myfyriwr.**
- **Mae'r gwasanaeth iechyd meddwl yn helpu myfyrwyr sy'n profi straen meddyliol neu emosiynol.**

Mae gwasanaeth cwnsela'r brifysgol yn ddiuedd, yn gyfrinachol, yn anfeirniadol ac ar gael i bob myfyriwr presennol.

## Cymorth i fyfyrwyr anabl

Mae'r gwasanaeth anabledd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ac yn cydlynu cymorth i fyfyrwyr prifysgol de cymru sydd ag anabledau, gan gynnwys anabledau corfforol, synhwyraidd, iechyd meddwl neu anabledau nas gwelwyd, anawsterau dysgu penodol (e.e. dyslecsia) ac awtistiaeth.

## GWEFANNAU DEFNYDDIOL...

**[www.thecompleteuniversityguide.co.uk](http://www.thecompleteuniversityguide.co.uk)**

Gwefan annibynnol gyda gwybodaeth am wahanol brifysgolion. Mae ganddynt hefyd ganllaw defnyddiol i bobl sy'n gadael gofal.

**[www.careerpilot.org.uk](http://www.careerpilot.org.uk)**

Gwybodaeth ac adnoddau i unrhyw un sy'n meddwl am ei ddewisiadau addysg a gyrfa. Mae ganddynt dudalen benodol ar gyfer myfyrwyr mewn gofal neu sy'n gadael gofal.



## [www.propel.org.uk](http://www.propel.org.uk)

Gwybodaeth ac ysbrydoliaeth ar addysg uwch i bobl sy'n gadael gofal. Gallwch chwilio am yr holl ddarparwyr addysg uwch yn y DU i ddod o hyd i'r person cyswllt ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.

## [www.UCAS.com](http://www.UCAS.com)

Popeth y mae angen i chi ei wybod am wneud cais am gwrs addysg uwch, ynghyd â gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall i bobl sy'n gadael gofal: [ucas.com/ucas/undergraduate/getting-strated/individual-needs/ucas-undergraduate-support-care-leavers](http://ucas.com/ucas/undergraduate/getting-strated/individual-needs/ucas-undergraduate-support-care-leavers)

## **Gwasanaeth llwybr Cyngor Dinas Casnewydd**

Mae'r staff yn nhîm llwybr y cyngor yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, cynorthwyrwyr gwaith cymdeithasol a chynghorwyr personol sy'n cynnig gwasanaeth i'r rhai dros 18 oed.

Gall hyn gynnwys cymorth gyda chyllid pan fyddwch dal mewn addysg. Bydd y gwasanaeth llwybr yn darparu lwfans bob pythefnos o £176.20 i gefnogi gyda threuliau dros y flwyddyn.

Darperir llety yn ystod cyfnod y gwyliau hyd at uchafswm y lwfans tai drwy gydol y cwrs. Nid yw hyn yn cynnwys yr amser sy'n arwain at ddechrau'r tymor cyntaf a'r amser yn dilyn y tymor diwethaf.

Byddwch yn gyfrifol am dalu eich rhent yn uniongyrchol ynghyd â'r holl gostau myfyriwr eraill.

## **ADDYSG UWCH...**

Rhaid i fyfyrwyr wneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru i dalu cost ffioedd dysgu a hefyd gwneud cais am y grant cynhaliaeth. I gael gwybod mwy ewch i:

[www.studentfinancewales.co.uk](http://www.studentfinancewales.co.uk)

## **Bwrsari addysg uwch**

Bydd rhywun sy'n gadael gofal sy'n dechrau cwrs israddedig erbyn ei ben-blwydd yn 25 oed hawl i'r bwrsari addysg uwch.



Y bwrsari yw £2,000 sydd i gwmpasu'r cwrs cyfan. Mae'r dull talu yn ddewisol ac ar hyn o bryd rhennir y taliad dros hyd y radd ar ddiwedd pob tymor.

Mae rhai prifysgolion hefyd yn darparu bwrsariau i fyfyrwyr sy'n gadael gofal. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth llwybr i gael mynediad i'r cyllid yma yn ogystal â mynediad at grantiau elusennol a all fod ar gael



## **Lwfans myfyrwyr anabl**

Os oes gan berson ifanc anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd cronig, anhawster dysgu penodol neu gyflwr iechyd meddwl, dylai fod yng Nghategori 1 ar gyfer y lwfans myfyrwyr anabl (LMA).

Mae hyn yn helpu gyda chostau a ysgwyddir i fynychu eich cwrs o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd. Er enghraifft, gall dalu am offer arbenigol neu helpwr anfeddygol fel rhywun sy'n cymryd nodiadau.

Mae'r LMA ar gael i fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser ag anableddau. Rhaid i fyfyrwyr rhan-amser fod yn astudio o leiaf 50% o gwrs llawn-amser.

Mae ar gael i israddedigion ac ôl-raddedigion. **NID** yw'r swm a gewch yn dibynnu ar eich incwm chi nac incwm yr aelwyd. Nid oes rhaid ad-dalu'r cymorth ariannol hwn.

Mae rhagor o wybodaeth ar sut i ymgeisio ar gael yn:

**[www.studentfinancewales.co.uk](http://www.studentfinancewales.co.uk)**

*Mae'r cymorth arall sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn cynnwys:*

- **Grant gofal plant**
- **Lwfans dysgu rhieni**
- **Grant dibynyddion sy'n oedolion**

## **Taliadau dewisol**

Gellir gwneud ceisiadau am arian ychwanegol drwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, gall eich cynghorydd personol gwblhau'r cais ar eich rhan. Bydd y tîm llwybr yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi am hyn.